

GULFOOD, DUBAI

20–24 Chwefror 2023

Sectorau Allweddol

Bwyd a Diod
Mynd â Chymru i'r Byd

Dyddiad cau:
24 Hydref 2022



Pam Gulfood 2023?

Gulfood yw'r arddangosfa fasnach flynyddol fwyaf yn y byd ar gyfer bwyd a diod. Bydd y 28ain arddangosfa hon yn hanes Gulfood yn parhau i uno cymunedau bwyd a diod ledled y byd. Disgwylir mwy na 4,000 o gwmnïau o dros 120 o wledydd a dros 150 o bobl ddylanwadol yn y diwydiant a fydd yn sbarduno tueddiadau newydd gan ddod â'r cwmnïau bwyd a diod at ei gilydd.

Dewisiadau a chostau ar gyfer cymryd rhan

Bydd gan Bwyd a Diod Cymru stondinau yn y Neuaddau Rhyngwladol a Chynnyrch Llaeth (byddant wedi'u lleoli gyda'r mwyafrif o'r arddangoswyr Prydeinig eraill). Hoffem wahodd cwmnïau i arddangos o dan frand Cymru/Wales, ac mae gennym ddewis o becynnau ar gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymhorthdal ar gyfer costau arddangos o dan frand Cymru/Wales – gweler y pecynnau posibl isod:

Mae Pecyn A – Arddangoswr Standin Lawn

- £4,729.00 (ac eithrio TAW)
- Hediadau yno ac yn ôl a llety 5 noson gyda brecwast i 2 o bobl. (Mae opsiwn ar gyfer 1 cynrychiolydd ar gael)
- Gofod arddangos penodol ym mhafiliwn Cymru (4 metr sgwâr). Gall stondinau mwy fod ar gael ar gais
- Anfon nwyddau arddangos ymlaen, tuag allan (mae cyfyngiadau'n berthnasol)
- Paneli graffeg a dodrefn standin sylfaenol
- Cael eich cynnwys yn llyfryn y sioe ac mewn llenyddiaeth farchnata
- Tocynnau arddangoswyr ar gyfer y sioe (uchafswm o 2 fesul cwmni)
- Cymorth ar y safle gan Lywodraeth Cymru a chontractwyr penodedig

Mae Pecyn B – Ymweliad Allforio

- £896.00 (ac eithrio TAW). Llai o nosweithiau ar gael ar gais
- Hediadau yno ac yn ôl a llety gyda brecwast ar gyfer 1 person
- Cael eich cynnwys yn llyfryn y sioe ac mewn llenyddiaeth farchnata
- Tocyn arddangoswyr ar gyfer y sioe (1 tocyn)

Cyfeiriad e-bost i gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth:

Shirley.mcgilvray@llyw.cymru